| | |
|---|---|
| CYFARFOD | **Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu** |
| DYDDIAD | **14 Hydref 2021** |
| TEITL | **Cyfrifon Terfynol am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021 a'r Archwiliad perthnasol** |
| PWRPAS | **Cyflwyno –**<br>• **Datganiad o'r Cyfrifon ôl-Archwiliad;**<br>• **Adroddiad 'ISA260' Archwilio Cymru;**<br>• **Llythyr Cynrychiolaeth (Atodiad 1).** |
| ARGYMHELLIAD | **Ystyried a chymeradwyo'r wybodaeth cyn awdurdodi'r Cadeirydd i ardystio'r llythyr** |
| AWDUR | **Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid** |

---

## 1. CYFRIFON 2020/21

Gyda'r pandemig Covid-19 yn parhau, bu i Lywodraeth Cymru ymestyn yr amserlen ar gyfer cwblhau y cyfrifon am yr ail flwyddyn yn olynol. Er hynny, llwyddodd y Cyngor i gwblhau'r Datganiad o'r Cyfrifon 2020/21 o fewn yr amserlen wreiddiol gan ryddhau'r cyfrifon i'r Archwilwyr 28 Mai 2021. Cyflwynwyd y Datganiad o Gyfrifon 2020/21 (amodol ar archwiliad) i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 17 Mehefin 2021, pryd bu craffu priodol.

Mae'r cyfrifon terfynol yn dilyn archwiliad yn cael eu cyflwyno i Bwyllgor Archwilio a Llywodraethu 14 Hydref 2021, sydd o fewn yr amserlen statudol ddiwygiedig o 30 Tachwedd 2021 eleni.

## 2. ARCHWILIAD GAN ARCHWILIO CYMRU AR RAN ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU

Nodwyd yng nghyfarfod Mehefin fod y cyfrifon hyn yn destun archwiliad gan Archwilio Cymru, a chyflwynir yma adroddiad 'ISA260' gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn manylu ar eu prif ddarganfyddiadau.

## 3. DATGANIADAU ARIANNOL ÔL-ARCHWILIAD AM 2020/21

Cyflwynir yma hefyd y fersiwn derfynol (ôl-archwiliad) o'r Datganiad o'r Cyfrifon am 2020/21. Mae'r prif newidiadau ers y fersiwn cyn archwiliad wedi'u hamlinellu yn rhan 16 ac Atodiad 3 o adroddiad 'ISA260' Archwilio Cymru.

## 4. ARGYMHELLIAD

**Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ystyried a chymeradwyo'r –**

- Adroddiad 'ISA260' gan Archwilio Cymru ar gyfer Cyngor Gwynedd
- Datganiad o'r Cyfrifon 2020/21 (ôl-archwiliad)

## 5. LLYTHYR CYNRYCHIOLAETH

Gofynnir i Gadeirydd y cyfarfod, ynghyd â'r Pennaeth Cyllid, ardystio'r Llythyr Cynrychiolaeth, yn electronig eleni (Atodiad 1 i adroddiad Archwilio Cymru) wedi i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu gymeradwyo'r uchod.

## 6. TYSTYSGRIF YR ARCHWILYDD PENODEDIG

Wedi iddo dderbyn y Llythyr Cynrychiolaeth wedi'i ardystio gan y Cadeirydd a'r Pennaeth Cyllid, bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru (Adrian Crompton) yn cyhoeddi'r tystysgrif ar y cyfrifon.